# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Diwygio) (Cymru) 2001

**Y Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio tri gorchymyn sydd mewn grym o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i'w gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud datganiad, pan fo cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned wedi mabwysiadu cod ymddygiad o dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ymrwymo y byddant wrth gyflawni eu swyddogaethau yn parchu cod ymddygiad y cyngor.

Y tri Gorchymyn sydd wedi'u diwygio yw:

(1) Gorchymyn Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Datganiad Derbyn Swydd) 1990;

(2) Gorchymyn Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Datganiad Derbyn Swydd) 1990;

(3) Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Ffurflenni Cymraeg) 1991.

Deellir nad oes dim darpariaethau tebyg o'r fath wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

16 Hydref 2001